# Bwletin i Ddysgwyr

## Ceredigion Powys a Sir Gâr

Tachwedd 2024



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
**Ceredigion, Powys a Sir Gâr**
**Ceredigion, Powys & Carmarthenshire**



# Bwletin Tachwedd

Rydym wedi cael hanner tymor cyntaf prysur - gobeithio dych chi'n mwynhau dysgu gyda ni.

Mae gennym ni ysgolion undydd (wyneb yn wyneb) yn Aberystwyth, y Drenewydd, Llandrindod a Llandeilo.

Rydym hefyd yn dathlu llwyddiant gan gyflwyno tystysgrifau i ymgeiswyr llwyddiannus arholiadau CBAC, darllenwch fwy am y digwyddiad yn y Drenewydd ar ddiwedd y bwletin hwn.

Os ydych wedi cwblhau'r cwrs Mynediad yn ddiweddar, efallai yr hoffech sefyll yr Arholiad Mynediad Ionawr ddydd Gwener 31 Ionawr.  Gallwch gofrestru i sefyll yr arholiad yma.

Peidiwch ag oedi i gysylltu â ni gydag unrhyw gwestiwn neu ymholiad.

**Tîm Dysgu Cymraeg**
**Ceredigion Powys Sir Gâr**
**dysgucymraeg@aber.ac.uk**

# November News

We've had a busy first half term - we hope you are enjoying learning with us.

We've got (in-person) one day schools in Aberystwyth, Newtown, Llandrindod Wells and Llandeilo.

We're also celebrating success this month, awarding WJEC certificates to successful exam candidates, read more about the Newtown event at the end of this bulletin.

If you have recently completed the Mynediad course, you may wish to sit the January Mynediad Exam on Friday 31st January.  You can register to sit the exam here.

Do not hesitate to contact us with any question or enquiries.

**Learn Welsh Team**
**Ceredigion Powys Carmarthenshire**
**learnwelsh@aber.ac.uk**

# Siawns am Sgwrs

**Ymunwch â thîm y Ganolfan Dysgu Cymraeg am sgwrs ar-lein unwaith y mis. Bydd grŵp ar bob lefel.**

Join the Dysgu Cymraeg team to practise your speaking skills in an on-line chat once a month.
All levels available.


**Nos Fercher, 20 Tachwedd am 7pm-7.30pm**

**Cofrestru: dysgucymraeg.cymru**
Sign up at learnwelsh.cymru

**I'ch dyddiadur** | For your diary:
**19 Rhagfyr**




dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru



1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

**Nawr yn RHAD AC AM DDIM!**

# Cwrs Cynganeddu: Yr Ail Gam

## Gyda Ceri Wyn Jones

- 10 sesiwn byw, ar-lein - gellir ymuno o unrhywle
- Niferoedd cyfyngedig felly archebwch nawr
- Yn dechrau 05.11.24 am 7.30yh
- Cwrs addas i unigolion sydd am barhau neu ailafael yn y grefft

Sganiwch i archebu lle ac am wybodaeth pellach

# Arholiadau CBAC Defnyddio'r Gymraeg
## WJEC Examinations 2025

| | Dyddiad Date | Dyddiad cau Deadline | Dolen i gofrestru Link to register |
|---|---|---|---|
| **Mynediad Ionawr** | Dydd Gwener 31/01/2025 | 6 Rhagfyr 2024 | **Manylion cofrestru i ddilyn** |
| **Mynediad Dydd** | Dydd Mawrth 10/06/2025 | 28 Chwefror 2025 | **Manylion cofrestru i ddilyn** |
| **Mynediad Nos** | Nos Fercher 11/06/2025 | 28 Chwefror 2025 | **Manylion cofrestru i ddilyn** |
| **Sylfaen** | Dydd Gwener 20/06/2025 | 28 Chwefror 2025 | **Manylion cofrestru i ddilyn** |
| **Canolradd** | Dydd Gwener 13/06/2025 | 28 Chwefror 2025 | **Manylion cofrestru i ddilyn** |
| **Uwch** | Dydd Mercher a bore Iau 18-19/06/2025 | 28 Chwefror 2025 | **Manylion cofrestru i ddilyn** |

**Ein bwriad yw i gynnal yr arholiadau wyneb yn wyneb - lleoliad yn dibynnu ar niferoedd. Mae manylion arholiadau CBAC ar gael wrth glicio'r lefel priodol. Gall profion llafar yn unig gael eu cynnig ar-lein.** For examination information from the WJEC, click on the appropriate level. We plan to hold in-person exams, location depending on demand. Speaking tests may be available on-line.

1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Ceredigion, Powys a Sir Gâr
Ceredigion, Powys & Carmarthenshire

## Arholiad CBAC WJEC Examination
# Mynediad Ionawr
## Gwener 31.01.25 Friday

**Lleoliad yn dibynnu ar y galw | Location depending on demand**

**06.12.24 Dyddiad cau i gofrestru | Closing date to register**

**Cofrestru | Register here:** https://bit.ly/MynediadIonawr25



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Ceredigion, Powys a Sir Gâr
Ceredigion, Powys & Carmarthenshire

Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol

# Penwythnos Cymraeg i'r Teulu

## Welsh for the Family Weekend

**28 Chwefror – 2 Mawrth**
28 February - 2 March 2025

Scan the QR code for a booking form.

Sgania'r cod ar gyfer ffurflen archeb.

Gwersyll yr Urdd
Llangrannog

**Gwersi Cymraeg, gweithgareddau a hwyl i'r teulu cyfan.**
Welsh lessons, activities and fun for all the family.





Hands down one of the most amazing weekends we've had as a family!

We left buzzing and full of Cymraeg!

**Vicky Suter-Jones**

Llangrannog

Cymdeithas Edward Llwyd

Cymdeithas Genedlaethol Naturiaethwyr Cymru

Elusen Gofrestredig rhif 1126027

## Cystadleuaeth y Dysgwyr, 2024

Mae Cymdeithas Edward Llwyd yn croesawu pobl sy'n dysgu'r Gymraeg. Mae ymuno yng ngweithgareddau'r Gymdeithas yn cynnig cyfle gwych i ymarfer siarad Cymraeg mewn awyrgylch gyfeillgar.

Mae'r Gymdeithas hefyd yn croesawu erthyglau gan ddysgwyr ar gyfer eu cylchgrawn, Y Naturiaethwr. Cyhoeddir detholiad o'r erthyglau hyn yn y cylchgrawn. Mae canllawiau i awduron ar gael ar y we, yn y fan hyn: https://cymdeithasedwardllwyd.cymru/canllawiau

Er mwyn cymryd rhan yn y gystadleuaeth, dylai eich erthygl ddod i law'r Golygydd erbyn Ionawr 1af 2025. naturiaethwr@cymdeithasedwardllwyd.cymru

Bydd gwobr o £200 am yr erthygl orau.

# Noson Yng Nghwmni Eurgain Haf



## 23 Ionawr 2025 7yh ar Zoom

Dyma gyfle arbennig i bawb sy'n dilyn cyrsiau Gloywi Iaith i gwrdd ag Eurgain Haf, enillydd y Fedal Ryddiaith 2024, er mwyn trafod ei nofel Y Morfarch Arian a chlywed am ei gwaith a'i bywyd. Mae iaith y nofel yn goeth ac yn dafodieithol mewn mannau, ac felly cheir taflenni geirfa yma i hwyluso'r darllen.

**Dyma ichi ambell ddyfyniad o'r feirniadaeth:**
Clywn lais nodedig y prif gymeriad, merch 13 oed o'r enw Heli, o'r frawddeg gyntaf y nofel. Nid yw'n llais cyfforddus i wrando arno ar adegau ond mae hynny'n dyst i ddawn yr awdur i dreiddio i feddwl un sy'n dioddef o OCD. Nid nofel drom, lafurus mohoni er hynny. (Annes Glyn)

Mae'r ysgrifennu yn gadarn: ceir disgrifiadau cywrain a barddonol ar adegau, cymeriadau cryf, plotio da a deialog gredadwy drwyddi draw.....Mae'r nofel hon...yn cyfareddu, ac yn aros gyda'r darllenydd am gyfnod hir wedi'i darllen. (Elen Ifan)

Dyma ysgrifennu synhwyrus, dychmygus sydd yn defnyddio hiwmor, cynhesrwydd a thensiwn. (John Roberts)

Os hoffech chi ymuno â'r sesiwn, anfonwch e-bost at **riv1@aber.ac.uk**, ac anfonir y ddolen atoch yn nes at y dyddiad.

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
**Ceredigion, Powys a Sir Gâr**
**Ceredigion, Powys & Carmarthenshire**

# Sadwrn Siarad Aberystwyth

**Adeilad Hugh Owen**
**Campws Penglais**

**16.11.24**
**09:30 - 15:30**
**£10**

| **Lefel** Level | **De** South Dialect |
|---|---|
| **Mynediad 1** Entry 1 | AT25-12-SS-M1-de |
| **Mynediad 2** Entry 2 | AT25-13-SS-M2-de |
| **Sylfaen 1 a 2** Foundation 1 & 2 | AT25-14-SS-S-de |
| **Canolradd 1 a 2** | AT25-15-SS-C-de |
| **Uwch** | AT25-16-SS-U |

# Sadwrn Siarad y Drenewydd
## A face to face course in Newtown

**Y Hafren, Ffordd**
**Llanidloes** Road

**16.11.24**
**09:30 - 15:30**
**£10**

| **Lefel** Level | **Gogledd** North Dialect |
|---|---|
| **Mynediad 1 a 2** Entry 1 & 2 | AT25-18-SS-M-gog |
| **Sylfaen 1 a 2** Foundation 1 & 2 | AT25-19-SS-S-gog |
| **Canolradd 1 a 2** | AT25-20-SS-C-gog |
| **Uwch** | AT25-21-SS-U |

**Cofrestrwch ar lefel eich dosbarth presennol**
Register on the level of your current class

1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
**Ceredigion, Powys a Sir Gâr**
**Ceredigion, Powys & Carmarthenshire**

# Sadwrn a Sul Siarad Llandeilo
## A one day face to face course in Llandeilo

**Hengwrt SA19 6AE**
**09:30 - 15:30**
**£10**



| **Lefel** Level | **Dyddiad** Date | **Course Code** Cod y Cwrs |
|---|---|---|
| **Mynediad 1** Entry 1 | **Sad 09.11.24** | **AT25-22-SS-M1-de** |
| **Mynediad 2** Entry 2 | **Sad 09.11.24** | **AT25-23-SS-M2-de** |
| **Sylfaen 1 a 2** Foundation 1 & 2 | **Sad 09.11.24** | **AT25-24-SS-S-de** |
| **Canolradd 1 a 2** | **Sul 10.11.24** | **AT25-25-SS-C-de** |
| **Uwch** | **Sul 10.11.24** | **AT25-26-SS-U** |

**Cofrestrwch ar lefel eich dosbarth presennol**
Register on the level of your current class

1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
**Ceredigion, Powys a Sir Gâr**
**Ceredigion, Powys & Carmarthenshire**


# Sadwrn a Gwener Siarad Llandrindod
## A one day face to face course in Llandrindod Wells

| **Lefel** Level | **Dyddiad** Date | **Course Code** Cod y Cwrs |
|---|---|---|
| **Mynediad 1 a 2** Entry 1 & 2 | **Sadwrn 02.11.24** | **AT25-27-SS-M-de** |
| **Sylfaen 1 a 2** Foundation 1 & 2 | **Sadwrn 09.11.24** | **AT25-28-SS-S-de** |
| **Canolradd 1 a 2** | **Gwener 22.11.24** | **AT25-29-SS-C-de** |
| **Uwch** | **Sadwrn 30.11.24** | **AT25-30-SS-U** |

**Cofrestrwch ar lefel eich dosbarth presennol**
Register on the level of your current class

**Celf o Gwmpas**
**09:30 - 15:30**
**£10**






## Cynnig arbennig!

Bydd pawb sydd wedi cofrestru ar gwrs Dysgu Cymraeg yn medru cael mynediad at adnodd Say Something in Welsh am ddim am 12 mis. Dyma adnodd defnyddiol i gefnogi eich datblygiad Cymraeg llafar.

Byddwch hefyd yn gallu Dilyn yr adnodd drwy ddefnyddio Ap newydd Say Something in Welsh.

Dilynwch y ddolen yma i gofrestru – mae'n syml!

## Special Offer!

Everyone enrolled on a Learn Welsh course can access the Say Something in Welsh resource for free, for 12 months. This is a useful resource to support the development of your oral Welsh skills.

You will also be able to use the new Say Something in Welsh App to follow the resource.

Select this link to register – it's easy!

Mae meistroli'r Gymraeg heb y cyfle i ymarfer yn gallu bod yn anodd. Rydyn ni'n credu'n gryf y gall ymdrwytho mewn gwahanol lefelau a thafodieithoedd o'r iaith wella dealltwriaeth a hyfedredd yn fawr. Mae'r gweinydd hwn, a grëwyd gan ddysgwyr ar gyfer dysgwyr Cymraeg, yn croesawu'n gynnes unigolion ar bob cam o'u taith Gymraeg. Mae croeso i chi ymuno a chychwyn ar yr antur ieithyddol hon gyda ni.




Mastering Welsh without the opportunity to practice can pose a challenge. However, we firmly believe that immersing oneself in diverse levels and dialects of the language can greatly enhance comprehension and proficiency. This server, created by Welsh learners for Welsh learners, warmly welcomes individuals at all stages of their Welsh language journey. Feel free to join and embark on this linguistic adventure with us.

# Cletwr Dal Ati

## Grŵp Sgwrsio Cymraeg | Welsh Chat Group

Bob pythefnos wyneb yn wyneb @ Caffi Cletwr Tre'r Ddol
Every fortnight in person! Cletwr Cafe, Tre'r Ddol
Sadwrn 11.00 - 11.30 Saturdays
Croeso i bob lefel All levels welcome

Cyswllt | Contact 01970 832113 cletwr@cletwr.com

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Ceredigion, Powys a Sir Gâr
Ceredigion, Powys & Carmarthenshire

# Clwb C Aberystwyth

Home Café, Heol y Wig | Pier Street, Aberystwyth

Bob bore Iau Every Thursday 11:00 - 12:00

Cysylltwch â Contact Jacqueline Willmington
j.willmington@btinternet.com

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Ceredigion, Powys a Sir Gâr
Ceredigion, Powys & Carmarthenshire

Croeso i bawb, yn enwedig i ddysgwyr lefel Mynediad Sylfaen a Chanolradd!
All learners are welcome, especially those on Entry, Foundation & intermediate levels

# CYMDEITHAS CEREDIGION

Caffi Emlyn, Tanygroes



**Nos Wener 7.30pm**
**1 Tachwedd 2024**
**Caffi Emlyn Tanygroes**
**Noson yng Nghwmni yr awdur**
**Carwyn Graves**

Mae Carwyn yn awdur, yn arddwr ac yn ieithgi o Gaerfyrddin. Bydd yn siarad am ei lyfr 'Tir' a'n tirwedd ddiwylliannol.

Wrth sôn am y llyfr, mae'n dweud, "Yn ein cyfnod modern o bryderon hinsawdd a dadleuon pegynnu ar ddefnydd tir, diet a mwy, mae'n bwysig ein bod yn deall y byd yr ydym ynddo a'r ffyrdd y teithiom i gyrraedd yma. Drwy archwilio pob un o dirweddau allweddol ledled Cymru a chwrdd â'r bobl sy'n byw, yn gweithio ac yn ffermio ynddynt, mae 'Tir' yn cynnig gobaith am ddyfodol gwell; un gyda thirweddau syfrdanol o hardd, bioamrywiol sydd ddeg gwaith yn gyfoethocach o ran bywyd gwyllt nag y maent ar hyn o bryd, ac sy'n dal i fod yn llawn bodau dynol yn gweithio'r tir."

Bydd croeso cynnes i bawb. (Am ddim i aelodau; £5 am y noson yn unig; £10 am aelodaeth am y flwyddyn).



### Cered: Menter Iaith Ceredigion

# Ar Gered

## Calan Gaeaf Special

### Welsh Language Walks

**Sunday 3rd November**
**10:00am**
**Hafod Hotel, Devil's Bridge**

Come and celebrate Calan Gaeaf in the traditional Welsh way on this special walk to Nant Syddion, a bothy with a spooky past in the middle of the forest.

Taith 11km ar hyd llwybrau sy'n llawn hanes, natur a golygfeydd rhyfeddol.

Croeso cynnes i siaradwyr Cymraeg, dysgwyr o bob lefel ac unrhywun di-Gymraeg sydd am flas o'r iaith.

Mae cofrestru yn angenrheidiol felly e-bostiwch Steff, arweinydd y daith: steffan.rees@ceredigion.gov.uk.


Paned a Sgwrs
i Ddysgwyr Cymraeg
a Siaradwyr Newydd
Sgwrs fer ar thema
Fy Hoff Le (15-20 munud)
yna paned a sgwrs anffurfiol
i bawb gael ymarfer eu
Cymraeg
Caffi Llyfrgell Genedlaethol
Cymru, Aberystwyth
10.30 - 11.30
bore Sadwrn cyntaf pob mis
Croeso mawr i bawb
o bob gallu!
Eglwys Efengylaidd
Aberystwyth


COFFI A CHLONC
ABERAERON
Bob bore Dydd Mawrth
10:30 - 12:00
Y Cwch Gwenyn/ The Hive
Aberaeron
weekly chat in Welsh - all Welsh learners welcome.
every Tuesday 10:30- 12:00
CROESO I BAWB

Gigs Cymraeg Ceredigion

# Tachwedd

## Welsh Language gigs in Ceredigion this month



**30.11.24**

Gigs Cantre'r Gwaelod
**Melys**
**+ Osgled**

Y Cŵps
Aberystwyth

Tocynnau | £15 | Tickets
theatrfelinfach.cymru



**31.10.24 - 2.11.24**

Lleisiau Eraill
**Georgia Ruth** | Melys
**Cynefin** | Gillie | **Lleuwen** |
**Melin Melyn** | Minas
Sage Todz | **Tara Bandito** |
**The Gentle Good** a mwy

Aberteifi

Tocynnau | £10-50 | Tickets
mwldan.ticketsolve.com



**2.11.24**

**Rio 18**
**+ Elijah Minnelli**

Y Cŵps
Aberystwyth

Tocynnau | £15.40 | Tickets
seetickets.com

**Hefyd** | Also

02 | **Calan** | Canolfan y Celfyddydau | Aberystwyth
15 | **Bwncath** | Y Seler | Aberteifi
17 | **Elis James** [comedi] | Mwldan | Aberteifi
21 | **Cynefin** | Bank Vault | Aberystwyth
23 | **Calan** | Mwldan | Aberteifi
29 | **Cabarela** | Canolfan y Celfyddydau | Aberystwyth
30 | **Cabarela** | Canolfan y Celfyddydau | Aberystwyth

cered
MENTER IAITH CEREDIGION

# Digwyddiadau Ceredigion








CLWB Y DDERWEN
CLWB SGWRSIO I DDYSGWYR YN ARDAL LLANIDLOES
CHAT CLUB FOR WELSH LEARNERS IN LLANIDLOES
Cyfle am sgwrs gyda dysgwyr Cymraeg eraill
Bob bore dydd Llun, 10.30am
Hiraeth, Llanidloes
Manylion gan Sue Hyland: sueh52@btinternet.com
Lleoliad Newydd - New Venue!
dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Ceredigion, Powys a Sir Gâr
Ceredigion, Powys & Carmarthenshire


Cia Fi
Teithiau Cerdded yn y Drenewydd
Sadwrn - 5 Hydref, 9 Tachwedd, 7 Rhagfyr 2024
Cwrdd 10am Hafan yr Afon
Paned a sgwrs ar ôl y dro, croeso i siaradwyr naturiol a newydd o bob lefel ac oed.
Welsh Walks in Newtown
Saturdays - 5 Oct, 9 Nov, 7 December 2024
Meet 10am Hafan yr Afon
A cuppa and chat after the walk, every level of Welsh learner welcome.
dlg3@aber.ac.uk
dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Ceredigion, Powys a Sir Gâr
Ceredigion, Powys & Carmarthenshire

Digwyddiadau Powys • Powys • Powys







siop siarad
Cyfle anffurfiol i ymarfer eich Cymraeg a dysgu mwy am yr iaith
An informal opportunity to practice your Welsh and learn more about the language
3RD WEDNESDAY OF THE MONTH
3YDD DYDD MERCHER Y MIS
2-4PM & 7- 9PM
Siop Cwlwm
33 Bailey Street,
Croesoswallt / Oswestry, SY11 1PX
post@siopcwlwm.co.uk
01691 680401 / 07814 033759


Welsh Conversational Group
Fridays 11am-12pm
Free, but please book your place
Llyfrgell Croesoswallt
Oswestry Library
Shropshire Council


CERDDED A CHLONC
Cyfle anffurfiol i rieni a gofalwyr ardal Bro Caereinion i ymarfer Cymraeg a mynd am dro yn Y Trallwng
An informal opportunity for parents & carers in the Bro Caereinion Catchment to practise speaking Welsh and go for a walk in Welshpool
Cwrdd tu allan i Ysgol Gymraeg Y Trallwng
Meet outside Ysgol Gymraeg y Trallwng
Bob Dydd Mercher
2pm - 3pm
Every Wednesday
To find out more please contact Eleri Jones on elc105@aber.ac.uk
Cymraeg yn y Cartref
Welsh at Home
dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Ceredigion, Powys a Sir Gâr
Ceredigion, Powys & Carmarthenshire

# Cymdeithas Hanes Dinas Mawddwy a'r Cylch

Yn cyflwyno sgwrs am

## 'Y Gwylliaid Cochion'

gan Emyr Puw Llanuwchllyn



Cwm Dugoed

**Nos Fawrth 19eg Dachwedd 2024**
**7:30yh Llew Coch - Dinas Mawddwy.**
**Croeso cynnes i bawb.**

Mynediad £5, Plant am ddim.

*A Talk in Welsh by Emyr Puw about the Red Bandits of Mawddwy.*
*Simultaneous translation from Welsh to English will be available by booking in advance.*
*All welcome.*
*7:30pm Tuesday 19th November 2024 - Red Lion Dinas Mawddwy. £5 admission. Children free.*
*Ffôn / Tel 07426914442*

# Cymdeithas Hanes Dinas Mawddwy a'r Cylch

Yn cyflwyno sgwrs am

## 'Afon Dyfi'

gan Dewi Roberts Llanidloes 'Dyn yr afon'



Afon Dyfi Pont Minllyn / Ffinnant

**Nos Fercher 11eg Rhagfyr 2024**
**7:30yh Llew Coch - Dinas Mawddwy.**
**Croeso cynnes i bawb.**

Mynediad £5, Plant am ddim.

*A Talk in Welsh by Dewi Roberts (aka 'The River Man') about the Afon Dyfi river.*
*Simultaneous translation from Welsh to English will be available by booking in advance.*
*All welcome.*
*7:30pm Wednesday 11th December 2024 - Red Lion Dinas Mawddwy. £5 admission. Children free.*
*Ffôn / Tel 07426914442*

Digwyddiadau
Powys • Powys

# Clwb Hwb Maldwyn

Clwb ar-lein i sgwrsio yn Gymraeg | **Friendly, informal online chat group to practise your Cymraeg**

Bore Mawrth dwywaith y mis 10.30 - 11.30 Croeso i bob lefel
Tuesdays - twice a month 10:30 - 11:30 All levels welcome


Cwrdd Next meetings
17 Medi; 1 a 15 Hydref, 5 a 19 Tachwedd; 3 a 17 Rhagfyr 2024


Cyswllt | Contact Mererid Roberts mhr7@aber.ac.uk


dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
**Ceredigion, Powys a Sir Gâr**
**Ceredigion, Powys & Carmarthenshire**

# Digwyddiadau Sir Gâr







# Digwyddiadau Sir Gâr












# Digwyddiadau Sir Gâr







# Podlediadau i Ddysgwyr | Podcasts for Welsh Learners













Meddyliau yn Gymraeg

























https://ypod.cymru/learnwelsh

# Angen cymorth ariannol wrth ddysgu Cymraeg?
# Do you need financial help with learning Welsh?

Mae cymorth ar gael drwy'r Gronfa Ariannol wrth Gefn i Ddysgwyr.
Support is available through the Financial Contingency Fund.

Mae posib cael cymorth ariannol i'ch helpu gyda chostau fel:
It's possible to receive assistance with costs such as:

- Gofal plant Childcare
- Ffi arholi Exam fees
- Adnoddau Resources
- Costau teithio Travel costs

*Nid oes modd hawlio cymorth at ffioedd cwrs
*It is not possible to claim for course fees






I fod yn gymwys, rhaid i chi gadarnhau:
To be eligible, you must confirm that:

- Eich bod yn wynebu caledi ariannol ac y byddai'n anodd cael mynediad i'ch hastudiaethau heb gymorth o'r fath
  You face financial hardship and that it would be difficult to access your studies without such support
- Eich bod wedi cofrestru ar gwrs Dysgu Cymraeg gydag un o Ddarparwyr Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
  You are enrolled on a Learn Welsh course with one of the Providers of the National Centre for Learning Welsh
- Eich bod yn 16 mlwydd oed neu hyn ar 31 Awst 2023 ac eich bod yn breswyliwr yn y DU neu'r DE am o leiaf 3 blynedd
  You are aged 16 or over on 31 August 2023 and you are a resident of the UK or EU for at least 3 years



I wneud cais, rhaid i chi fod yn gymwys a chwblhau'r Ffurflen Gais hawlio gallwch weld ar y wefan.
To make an application, you must be eligible and complete the Claim Form application that can be found on the website.

**Am fwy o wybodaeth, ewch i'n gwefan neu gysyllwch â:**
**For more information, visit our website or contact:**
learnwelsh.cymru/support/financial-support | cyllid@dysgucymraeg.cymru

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government


CYMRAEG Dysgu Learn

DIWRNOD

# SHWMAE SU'MAE

DAY

HYDREF 15
OCTOBER 15




## Dosbarth Uwch 2 arlein yn dalthlu Diwrnod Shwmae Su'mae wythnos diwethaf!

MENTRAU IAITH

Ariennir gan Llywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government


















27/10/24
Clwb Monty, y Drenewydd

Dathlu Llwyddiant Dysgwyr Maldwyn yn Arholiadau CBAC yn ystod 2024

Celebrating the success of Maldwyn Learners who sat WJEC exams in 2024

Llongyfarchiadau i Sue Hyland o Faldwyn a enillodd Cadair y Dysgwyr yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhontypridd eleni! Dyma Myrddin ap Dafydd yn cyflwyno'r gadair iddi nol ym mis Awst eleni.





Cwm Cnydfa

"Amser deffro, Delyth " daeth llais nyrs o rywle
Dim eto diolch..... dim eto...............

Tu ôl i fy llygaid caeedig, dw i adre .
Gwelaf y wawr yn agor ei llenni
a dyna fy nghwm yn ei holl ogoniant.

Nid yw'r haul yn ymladd ei gwsg
Ond yn llusgo ei fysedd o oleuni,
trochi mewn oren ,
ar draws yr awyr welwlas.

Pili-pala dw i
Yn cael fy nghario ar awel y bore,
dros glytwaith o gaeau gwyrdd,
a'r gwenoliaid tlws ,
fel lleianod bach yn eu du a gwyn,
yn paratoi am eu siwrne fawr.

Clywaf Nant Feinion yn byrlymu
ar ei ffordd i'r Afon Hafren
ac yng ngardd fy meddwl
mae'r haf yn pacio ei fagiau
mewn arlliwiau o wyrdd mwsoglyd
yn barod ar gyfer ei ymadawiad.

Mae'n nosi.
Mae'r lleuad yn ddiamynedd,
yn gorwedd ar ben y bryn
a'i freichiau wedi'u hymestyn
wrth i'r nos dynnu ei chysgod i lawr.

Cyn bo hir, byddaf yn rhan ohonoch .
Adre o'r diwedd,
Yn chwythu ar awel y bore.
Bydd fy enaid efo chi am byth
Ond dim eto diolch.....dim eto.......

Sue Hyland

